# Cenn@d

RHAGFYR 31 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 253


## Carolau Heddwch

Daeth tua phump ar hugain o bobl ynghyd o flaen giatiau RAF y Fali bnawn ddydd Mercher, 10 Rhagfyr, i ganu carolau ac i herio'r ffaith bod gan gwmni arfau mwyaf Israel, sef Elbit Systems, ganolfan yno. Hefyd, gwrthwynebwyd bod gan yr RAF rôl flaenllaw yn cefnogi'r hil-laddiad sy'n parhau i ddigwydd ar Lain Gasa ac ar y Lan Orllewinol.

Roedd y brotest wedi cael ei threfnu yn dilyn rhai digwyddiadau diweddar pan fu'r heddlu'n aflonyddu arnom wrth i ni ymarfer ein hawl i sefyll a chodi llais dros heddwch. Fel mae'n digwydd, chawsom ni ddim gwrthwynebiad gan yr heddlu yn y Fali. (Roeddent wedi dod i sicrhau na fyddai unrhyw wrth-brotest yn tarfu arnom, medden nhw.)

Yr unig wrth-brotest gawsom ni oedd pedair o awyrennau'r RAF yn gwneud cymaint o sŵn ag oedd yn bosib iddyn nhw ei wneud, gan godi a glanio a chylchu uwch ein pennau gydol yr amser y buom yno, a hynny ar yr union adeg yr oeddem wedi cytuno i ddechrau canu. Wnaeth yr heddlu ddim ymyrryd i'w hatal nhw, wrth gwrs!

Nid canu geiriau traddodiadol y carolau wnaethom ni chwaith. Mae nifer ohonom yn ei chael hi'n anodd canu am dawelwch a sancteiddrwydd glân





y preseb, a ninnau'n cofio i Iesu gael ei eni ym myd Herod. Diolch i Gôr Gobaith, Aberystwyth, am gael geiriau amgen i'w defnyddio. Efallai y byddwch chithau'n falch o'u derbyn a'u defnyddio hefyd:

**I orwedd mewn pabell**
I orwedd mewn pabell mewn peryg dirfawr
gan fomiau llu Israel yn syrthio i'r llawr,
rhieni a'u baban yn ofni y bedd
a'r byd mewn tawelwch yn cysgu mewn hedd.

Dim stop ar y lladd ers y cadoediad chwaith
dros bum cant 'di marw ers hynny, mae'n ffaith.
Y milwyr yn saethu, a'r llwgu o hyd,
arweinwyr byd grymus yn gwylio yn fud.

Mae milwyr cas Herod yn brwydro o hyd
gan 'nafu plant bychain, diniwed i gyd.
Rhaid sefyll gyda'n gilydd, a gweiddi fel un,
'Cadoediad a heddwch i holl deulu dyn'.

**O Deued Cyfiawnder**
O deuwch, ffyddloniaid, pawb a gâr gyfiawnder,
O sylwch, O sylwch ar Balesteina.
Gwelwch y wlad a'i phlant sydd dan feddiannaeth.
O dewch, nac anwybyddwn; O dewch, nac anwybyddwn;
O dewch, nac anwybyddwn, cyhoeddwn i'r byd.

Canwn, genhedloedd, canwn mewn digofaint;
Cefnogwn ni holl bobl Palesteina.
Canwn, 'Cyfiawnder, rhyddid rhag gorthrymder'.
O dewch, nac anwybyddwn; O dewch, nac anwybyddwn;
O dewch, nac anwybyddwn, cyhoeddwn i'r byd.

Mae criw'r wylnos yng Nghaernarfon wedi gosod preseb o flaen Capel y Maes eto eleni. Nid baban yn y rwbel, fel gwnaethom ni'r llynedd a'r flwyddyn cynt – ond pabell seml a geiriau amgen 'I orwedd mewn preseb' o'i blaen. Dyma rywbeth arall y gallech ei efelychu hefyd, efallai.

Tra mae 'Tommy Robinson' yn ceisio hawlio'r Nadolig i'r asgell dde eithafol, mae angen i ni wneud popeth fedrwn ni i rymuso'r neges o heddwch, gobaith a llawenydd y Nadolig hwn. Mae Duw, Emaniwel, yn dod i ganol llanast llwyr ein byd – hyd yn oed heddiw!

*(Anna Jane Evans, gyda diolch i wefan cristnogaeth21)*


'Y Diwygiad Tawel': Beth yw ein hymateb? Tudalen 2

Ffarwél i Mrs Bonni Davies Tudalen 3

O Aberduar i'r Beirdd Tudalen 4

# ‘Y Diwygiad Tawel’: Beth yw ein hymateb?

**Sioned Graves**, Swyddog Cenhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru, sy’n cynnig ei myfyrdodau am y cyfnod cenhadol rydym yn byw ynddo wrth i nifer gyflwyno adroddiadau am ‘Y Diwygiad Tawel’ ar draws y Deyrnas Unedig. Mae’n edrych ar hanes 1 Brenhinoedd 18, ac yn gofyn y cwestiwn: sut y dylwn ymateb?

‘Aeth Elias i fyny i ben Carmel, a gwargrymu ar y ddaear nes bod ei wyneb rhwng ei liniau. Yna dywedodd wrth ei lanc, “Dos di i fyny ac edrych tua’r môr.” Ac wedi iddo fynd ac edrych, dywedodd, “Nid oes dim i’w weld.” A saith waith y dywedodd wrtho, “Dos eto.” A’r seithfed tro dywedodd y llanc, “Mae yna gwmwl bychan fel cledr llaw yn codi o’r môr.” Yna dywedodd Elias wrtho, “Dos, dywed wrth Ahab, ‘Gwna dy gerbyd yn barod a dos, rhag i’r glaw dy rwystro.’”
(1 Brenhinoedd 42–4)

Y penwythnos diwethaf, roeddwn i a’m gŵr a’m merch i fyny ar lethrau Carn Ingli. Cawsom y profiad o weld un o ffryntiau mawr y Gorllewin yn cau i mewn arnom. Fe wnaeth yr hyn a ddechreuodd gyda chymylau bach gwyn droi’n wynt cryf, ac erbyn y noson ganlynol dyma law trwm yn cau’n llen dros y tir i gyd. Os ydych chi erioed wedi arsylwi ar un o ffryntiau’r Iwerydd yn dynesu, byddai’n hawdd i chi ddychmygu’r olygfa yn 1 Brenhinoedd 18.

Y cyd-destun yno yw bod Israel wedi bod trwy gyfnod o sychder enbyd, felly byddai ymddangosiad glaw wedi bod yn destun rhyfeddod ac anghrediniaeth. Er nad yw Elias yn gweld y cwmwl â’i lygaid ei hunan yn yr hanes, mae adroddiad ei was fod cwmwl yn codi o’r môr yn ei ysgogi i ymateb yn syth. Pam felly? Darllenwn yn yr adnodau cynt ei fod yn penlinio mewn osgo weddigar. Efallai ei fod yn ymateb felly am fod Duw eisoes wedi rhoi ffydd iddo, mewn ymateb i’w weddi, fod glaw yn wir yn dod. Ffydd yw’r ‘dystiolaeth sicr o realiti beth dŷn ni ddim eto’n ei weld’ (Hebreaid 11:1).

Bûm mewn cyfarfod yn ddiweddar pan glywsom yr hanes hwn yn cael ei ddarllen mewn perthynas ag adroddiad ‘Y Diwygiad Tawel’. Prif gasgliad yr adroddiad gan Gymdeithas y Beibl yw bod degawdau o ‘ddirywiad’ ar draws eglwysi’r Deyrnas Unedig wedi dechrau newid. Efallai mai un o’r casgliadau mwyaf calonogol oedd yr arsylwad mai pobl ifanc (‘Gen Z’) sydd yn arwain y newid hwn. Yn ôl yr adroddiad, fe wnaeth nifer y bobl 18–24 oed oedd yn mynychu’r eglwys yn rheolaidd godi o 4% i 16% rhwng 2018 a 2024.

Tybed a ydym yn gweld cwmwl yn codi o’r môr yn ein hinsawdd ysbrydol heddiw? Beth bynnag yw ein safbwynt ni – os ydym ni’n gweld newid neu ‘ddiwygiad’ yn ein cyd-destun lleol ai peidio, tybed a yw’r adroddiadau hyn yn ein hysgogi ni i ymateb mewn ffydd? Efallai ein bod ni heb weld ‘y cwmwl’ â’n llygaid ein hunain, ond, fel Elias, tybed a fyddai Duw yn gofyn i ni ymateb gyda ffydd i’r hyn yr ydym yn ei glywed gan eraill?

A sut y gwnawn ni hynny? Un peth y gallwn ei wneud, fel Elias yn yr hanes, yw aros mewn osgo gweddi. Mae’r alwad i weddïo ac i eiriol dros y bobl o’n cwmpas sydd angen newyddion da yr efengyl yn aros yr un mor allweddol ag erioed. Mewn gweddi, yn aml y mae ein hymwybyddiaeth o bresenoldeb a realiti Duw yn codi, a gyda hynny, y mae ffydd hefyd yn cynyddu.

> “Pam na fyswn … fel Elias, yn dechrau ymateb wrth glywed yr adroddiadau hyn am law – a dechrau symud mewn ffydd?”

Rhywbeth arall allen ni ei wneud yw dechrau gweithredu mewn ffydd, ar sail ein cred mai Duw byw sydd gennym – a’i fod Ef ‘yn y busnes o achub’! Mae’n debyg bod ystadegau Cymdeithas y Beibl am bobl ifanc yn adroddiad ‘Y Diwygiad Tawel’ yn gyson yn cael eu hatgyfnerthu gan adroddiadau ar lawr gwlad gan nifer o eglwysi sy’n gweld pobl ifanc yn cael eu denu i’r ffydd – ac yn aml yn ‘troi i fyny’ heb rybudd i eglwysi.

Un o’r pethau allwn ni ei wneud yw gofyn y cwestiwn: a fyddai ein heglwysi ni’n barod i groesawu pobl newydd fel hyn petaent yn dod? Beth am i ni ddechrau meddwl: sut y gall ein heglwysi fod yn llefydd haws i bobl ‘droi i fyny’ iddynt?

Yr un pryd, mae’r alwad i estyn y tu allan i’r eglwys yr un mor allweddol ag erioed, os nad yn fwy pwysig nag erioed yn yr awr sydd ohoni.

Fe ryddhawyd adroddiad gan Scripture Union yn ddiweddar am blant ‘Gen Alpha’. Darganfu fod 80% ohonynt yn credu ym modolaeth Duw, ond dim ond 7% oedd yn mynychu’r eglwys yn rheolaidd. Pan ofynnwyd sut yr hoffent ymwneud â gweithgaredd fyddai’n eu helpu i ddysgu am Dduw, nid ‘mynd i’r eglwys’ oedd eu hoff ddewis o bell ffordd, ond mynychu gweithgareddau perthnasol am ffydd yn eu cartrefi, y tu allan, mewn neuaddau chwaraeon, mewn caffi ac ati! Er bod plant a phobl ifanc yn wir yn agored iawn i ffydd yn yr oes hon, mae’r alwad i ‘gamu allan’ o’r eglwys mewn ffyrdd creadigol a pherthnasol i gwrdd â’r genhedlaeth iau lle maen nhw’n parhau yr un mor bwysig.


Mae’r alwad hon yn wir i bob oed hefyd: darganfu adroddiad ‘Y Diwygiad Tawel’ y byddai 56% o bobl nad ydynt yn mynychu’r eglwys yn agored i ffrind Cristnogol i weddïo gyda nhw petaent yn cynnig!

> Pam na fyswn, felly, fel Elias, yn dechrau ymateb wrth glywed yr adroddiadau hyn am law – a dechrau symud mewn ffydd?

## Diolch am 70 mlynedd!

Dymunwn yn dda i’r Parchedig Ddr John Tudno Williams, wrth iddo roi’r gorau i bregethu, ac yntau wedi treulio 70 mlynedd yn cyhoeddi’r Gair mewn capeli ar hyd a lled Cymru – a thu hwnt. I glywed y cyfweliad a wnaeth John ar *Bwrw Golwg* ar 14 Rhagfyr, ewch i wefan BBC Radio Sounds; mae’r cyfweliad yn dechrau tua 19 munud o ddechrau’r rhaglen. Ceir hefyd grynodeb o’r sgwrs mewn erthygl ar Cymru Fyw. Dymunwn yn dda iddo yntau ac Ina, ei briod, i’r dyfodol.

Ond er ei fod yn rhoi gorau i bregethu, nid yw ei brysurdeb yn pallu gan ei fod ar hyn o bryd yn cwblhau gwaith ar ei gyfrol ddiweddaraf, sef *Cydymaith i’r Testament Newydd Cymraeg*. Gobeithir lansio’r gyfrol, sydd wedi derbyn nawdd a chefnogaeth gan y Llyfrgell Genedlaethol, yn ystod gwanwyn 2026.



# Ffarwél i Mrs Bonni Davies

Ddiwedd mis Hydref 2025, fe wnaeth Mrs Bonni Davies ymddeol o swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru, yn dilyn deunaw mlynedd o wasanaeth ffyddlon a chydwybodol i'r enwad. Ond roedd yn hynod weithgar o fewn yr enwad ymhell cyn hynny, gan fod yn aelod brwd o bwyllgorau a gweithdrefnau'r Undeb. Rydym yn hynod ddyledus i Bonni am ei gwaith aruthrol dros yr Undeb a'r Gorfforaeth fel ei gilydd. Fe aeth golygydd *Y Negesydd*, ati i'w holi.



**Rydych chi'n ferch o Sir Benfro, ac fe wnaethoch chi dyfu i fyny'n mynd i Eglwys y Bedyddwyr, sef Bethlehem, Trefdraeth. Allech chi ddweud tipyn wrthyn ni am eich magwraeth?**

Merch o sir y 'wês, wês' ydw i, wedi fy magu ers yn ifanc iawn yn nhref glan y môr Trefdraeth, lle roedd fy rhieni'n aelodau ffyddlon o eglwys y Bedyddwyr yno. Dwi'n hynod ddiolchgar fy mod wedi cael fy magu ar aelwyd grefyddol. Dwi'n ystyried fy hunan yn un o blant 'EJ', sef y Parchedig E. J. Williams, a ddaeth yn weinidog i Fethlehem pan oeddwn yn chwe blwydd oed ac a fu yno tan roeddwn yn 15 oed – cyfnod pwysig ac allweddol yn fy mywyd. Roedd rhywbeth ymlaen yn festri Bethlehem bob nos o'r wythnos, ac eithrio nos Sadwrn, a thrwy hyn i gyd, roeddwn innau'n cael fy magu yn sŵn yr Efengyl!

Bu'r fagwraeth yma'n allweddol, wrth i minnau'n 13 oed deimlo i Dduw siarad â fi drwy ei emynau, a minnau wedyn yn penderfynu mynd trwy ddyfroedd bedydd a dilyn Iesu. O'r dydd hwnnw ymlaen, beth bynnag fyddai'n digwydd i mi, roeddwn yn sicr y byddai Ef yn gydymaith i mi ym mhob achlysur ac yn rhywun y gellid troi ato ar unrhyw awr o unrhyw ddydd. Mor hyfryd wedyn oedd cyfarfod â Vivian, y gŵr, ac yntau'n rhannu'r un gwerthoedd ac yn aelod ffyddlon yng Nghapel Caersalem. Ymunais ag ef yn yr eglwys honno, lle bedyddiwyd ein tri phlentyn, a lle bedyddiwyd hefyd bump o'n hwyrion!

**Sut ddaethoch chi i weithio i'r Undeb wedyn?**

Gweithio yn y banc oeddwn i pan briodes i, ond bues i'n ffodus iawn, a minnau wedi priodi ffermwr, i gael aros adref i fagu'r plant. Dim ond wedi i'r plant dyfu i fyny, a'r mab yn gweithio ar y fferm erbyn hynny, y penderfynais fynd 'nôl i weithio – yn y banc am gyfnod byr, ac yna am naw mlynedd gyda phapur newyddion lleol. Roeddwn yn parhau i weithio gyda'r papur pan glywais yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn 2007 fod swydd Cynorthwyydd Personol i Ysgrifennydd Cyffredinol UBC yn mynd.

Roeddwn yn gwybod yn syth mai dyma oedd 'swydd fy mreuddwydion'. Roedd fy ngwyliau bron i gyd yn cael eu cymryd i fyny er mwyn mynd i gyfarfodydd a phwyllgorau Cymanfa, Glyn Nest, Senana ac ati, ac roedd hyd yn oed y Golygydd yn credu fod y swydd wedi cael ei chreu ar fy nghyfer! Ymgeisiais amdani a bod yn ddigon ffodus i'w chael, gan ddechrau yn Nhŷ Ilston ar 1 Tachwedd 2007.

**Oes yna bethau'n sefyll allan wrth i chi feddwl am eich amser yn gweithio i'r Undeb?**

Bu'n fraint ac yn anrhydedd arbennig iawn i gael gweithio i'r Undeb am gyfnod o ddeunaw mlynedd. Gwerthfawrogaf yn fawr fy mod, yn rhinwedd fy swydd, wedi cael y fath gyfle i gyfarfod â chymaint o weinidogion a gweithwyr diwyd yr enwad. Rwy'n ddiolchgar iawn hefyd am gael cydweithio'n hapus gyda holl staff yr Undeb, mewn awyrgylch hyfryd, gofalus a chariadus. Byddwn yn ffrindiau am oes. Yn fwyaf arbennig, diolchaf am y fraint fawr a gefais o gael cydweithio â dau Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, sef y Parchg Peter Thomas a'r Parchg Judith Morris – braint na fyddaf byth yn ei hanghofio. Dros gyfnod o ddeunaw mlynedd, ni allaf ddechrau mesur y bendithion a dderbyniais wrth gyflawni'r gwaith. Cefais fendithion rif y gwlith a diolchaf i Dduw a'i fab, a fu farw drosom, am bob un ohonynt.

**Diolch o galon, Bonni. Pob dymuniad da i chi ar gyfer y dyfodol.**

*(O'r Negesydd)*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 4 Ionawr, am 7:30yh**
**Blwyddyn Newydd Dda**
Nia Roberts sy'n croesawu'r flwyddyn newydd o arfordir dramatig Ynys Lawd yn Sir Fôn. Cawn fwynhau môr o ganu o gymanfa gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2026 yng Nghapel Hyfrydle, Caergybi. A chawn berfformiadau disglair gan Steffan Lloyd Owen a Chôr Aelwyd yr Ynys.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 4 Ionawr, am 7:30yb a 2:00yp**
Amrywiaeth o emynau o Gymanfa'r Brithdir yng nghwmni Trystan Lewis

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 4 Ionawr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Olwen Lintern-Smyth, Llanelwy

# O Aberduar i'r Beirdd



Pan dderbyniais alwad i fod yn weinidog ar Gapel y Beirdd ddechrau 1992 (34 mlynedd yn ôl erbyn hyn), roeddwn yn ymwybodol iawn fy mod yn dilyn ôl traed y Parch. Olaf Davies, sef fy nghyn-weinidog a'm tad yn y ffydd, a fu'n weinidog ar eglwys Aberduar, Llanybyddder, yn ystod fy arddegau. Cefais innau fy magu yn yr eglwys honno, a gwyddwn felly fod y ddau ohonom wedi gadael Aberduar i weinidogaethu yng Nghapel y Beirdd. Ond yn ddiweddar deallais nad ni'n dau oedd yr unig rai i wneud y daith honno o Aberduar i fyny i Eifionydd i fugeilio praidd ffyddlon y capel gwledig hwn.

Ychydig yn ôl, derbyniais neges e-bost gan gymydog i ni yn Llanllwni, sef yr hanesydd Dr David Thorne, a fu'n bennaeth ar Adran Gymraeg y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan. Wrth iddo ymchwilio i hanes fferm Pant-y-pond, sydd ddim ond tafliad carreg o'm cartref innau yn y pentref, fe ddaeth ar draws cofnod yn sôn am weinidog o'r enw Thomas Henfod Price. Fe aeth ati i ymchwilio i'w hanes, ond canfu mai prin iawn yw'r sôn amdano a hynny, mae'n debyg, oherwydd iddo farw yn hogyn ifanc 29 mlwydd oed. Nid ydym wedi llwyddo i gael hyd i hanes ei gyfnod yn y gogledd, na chanfod y rheswm dros ei farwolaeth.

Aeth David ati i chwilio am fwy o'i hanes, gan ddod o hyd i'r wybodaeth ganlynol: 'Derbyniwyd Thomas Henfod Price, o fferm Pant-y-pond, Llanllwni, i Goleg Hwlffordd yn 1883 a bu yno yn astudio am dair blynedd. Dechreuodd bregethu yn eglwys Aberduar, Llanybydder, cyn troi am y coleg i gymhwyso i fod yn weinidog, gan gael ei fedyddio yn afon Duar gerllaw'r capel. Yn dilyn cwblhau ei hyfforddiant cafodd ei ordeinio a'i sefydlu yn weinidog ar Gapel y Beirdd yn 1886, ac oddi yno aeth i Seion, Porthmadog, lle y bu farw ar 26 Ionawr 1894 yn fachgen ifanc 29 oed. Yn dilyn ei farwolaeth, fe'i claddwyd ym mynwent Aberduar, ac yno y gorwedd gyda'i rieni a'i ddwy chwaer.'

Wedi sgwrs gyda gweinidog presennol Aberduar, y Parch. Densil Morgan, aeth yntau ati i ymchwilio ymhellach, a dod o hyd i'w fedd ym mynwent yr eglwys. Yn ddiweddar aethom ill dau i weld y bedd, a rhaid oedd cael tynnu llun o'r garreg, sy'n cofnodi ei weinidogaeth yn Eifionydd.


*Aled Davies*

## Llyfr Newydd!

## *Justice Song: the Story of Christian Aid*

I nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed yn ddiweddar, cyhoeddwyd cyfrol newydd arbennig. Mae *Justice Song* yn trafod taith anhygoel Cymorth Cristnogol, o'r gwreiddiau ar ôl yr Ail Ryfel Byd i'w ddatblygiad fel grym blaenllaw yn y frwydr yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder. Fe'i hysgrifennwyd gan Michael Taylor, a wasanaethodd fel Cyfarwyddwr Cymorth Cristnogol o 1985 i 1997 ac mae'n cynnwys lluniau trawiadol a straeon arloesol.

Mae'r llyfr ar gael i'w brynu o wefan SPCK neu gyhoeddwyr ar-lein eraill: [https://spckpublishing.co.uk/justice-song](https://spckpublishing.co.uk/justice-song)




Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
[post@panel.cymru](mailto:post@panel.cymru) [panel.cymru](https://panel.cymru)
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
[huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)
[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) CennadCymru @CennadCymru